Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Uned Pysgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Llys Y Ddraig
Parc Busnes Penllergaer
Abertawe
SA4 9NX

01 Hydref 2013

**Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:**

**“Rheoli Pysgodfeydd Cocos yng Nghymru – Adolygiad Pellach”**

**Medi 2013**

## Sylwadau i grynhoi

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru "Rheoli Pysgodfeydd Cocos yng Nghymru – Adolygiad Pellach". Cyfoeth Naturiol Cymru yw prif ymgynghorwyr amgylcheddol Llywodraeth Cymru a grantî presennol Gorchmynion Rheoleiddio Cocos Dyfrdwy a Chilfach Tywyn. Mae ymgynghoriad rheoli cocos Llywodraeth Cymru yn argymell integreiddio rhai agweddau ar gyfrifoldebau rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru drwy gyflwyno cyfundrefnau trwyddedu newydd.

Ceir crynodeb o bwyntiau allweddol Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr adran agoriadol hon. Mae fformat ein hymateb yn cynnwys adran gyda sylwadau cyffredinol ac adran sy'n ymateb i bum cwestiwn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Fel rhan o’n hymateb cynhwysir dau atodiad; y cyntaf yn rhoi manylion y gwelyau cocos sy’n hysbys yng Nghymru a'r ail yn cynnwys ymholiadau ychwanegol ynglŷn ag argymhellion Llywodraeth Cymru.

## Pwyntiau Allweddol

1. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi mabwysiadu dull strategol o reoli’n gynaliadwy holl bysgodfeydd cocos Cymru, gan gynnwys fframwaith tryloyw ar gyfer gwneud asesiadau amgylcheddol cyson.

2. Rhaid i unrhyw bolisi a ddatblygir o ran rheoli cocos arwain at symleiddio, safoni a thryloywder yn y broses reoli a dylai gael ei ategu gan drefn glir o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

3. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn annog y gwaith o ddatblygu fframwaith gorfodi sy'n sicrhau dealltwriaeth, cyfathrebu a chyd-drefnu rhwng gwahanol gyrff gorfodi.

4. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu ystyriaeth bellach ynghylch sut y bydd gwahanol gyfundrefnau trwyddedu Llywodraeth Cymru yn gweithredu o safbwynt rheoleiddio a gweinyddu.

5. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau integreiddio rheoleiddiol a gweinyddol trwy reoli pysgodfeydd cocos yng Nghymru.

## Sylwadau Cyffredinol

### Cefndir

6. Ers diddymu dau Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Cymru ym mis Ebrill 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyfrifol am reoli nifer o bysgodfeydd cocos rhynglanwol ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae gwahanol bysgodfeydd cocos yn cael eu rheoli naill ai gan Lywodraeth Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru.

7. Dyma ail ymgynghoriad rheoli cocos Llywodraeth Cymru. Lansiwyd 'Rheoli Pysgodfeydd Cocos yng Nghymru – Adolygiad', sef yr adolygiad cyntaf, ym mis Gorffennaf 2012 i ymgynghori ar reoleiddio presennol a newidiadau arfaethedig i reoli cocos. Mae'r ail ymgynghoriad hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r prif argymhellion a ganlyn:

– cynllun Trwyddedau Cymru Gyfan ar gyfer casglu cocos masnachol
– cynllun Trwyddedu Prif Bysgodfeydd ar gyfer prif bysgodfeydd[1] dethol
– dull arfaethedig o ddyrannu Trwyddedau Prif Bysgodfeydd
– Isafswm Maint Glanio Cymru gyfan o 20mm ar gyfer cocos
– ffurflenni casgliadau gorfodol

### Ystyriaethau amgylcheddol

8. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei hymgais, mewn partneriaeth, i ddatblygu strategaeth hirdymor i reoli pysgodfeydd cocos yng Nghymru yn gynaliadwy yn unol â dull rheoli ar lefel yr ecosystem.

9. Er mwyn medru creu pysgodfa gocos a reolir yn gynaliadwy yng Nghymru, cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yw bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu fframwaith tryloyw ar gyfer ystyried asesiadau amgylcheddol. Ni ddylid cynnal asesiadau amgylcheddol ar eu pen eu hunain; dylent ystyried sut mae pysgodfeydd pysgod cregyn cyfagos yn effeithio ar ei gilydd ac effeithiau gweithgareddau atodol cysylltiedig megis mynediad sydd yn aml yn cael eu rheoleiddio gan awdurdodau eraill.

10. Ceir gwelyau cocos mewn gwahanol leoliadau o amgylch arfordir Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r 'prif bysgodfeydd' wedi'u lleoli o fewn safleoedd gwarchod natur dynodedig yr UE a'r DU megis Safleoedd Morol Ewropeaidd[2] a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig[3]. Cyn caniatáu pysgota am gocos mewn unrhyw ardal forol warchodedig yng Nghymru, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cynnal yr asesiadau amgylcheddol gofynnol.

[1] Bydd y canlynol yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru yn brif bysgodfeydd cocos: Gorchymyn Rheoleiddio Cocos Dyfrdwy, Gorchymyn Rheoleiddio Cilfach Tywyn, pysgodfeydd cocos y Tair Afon a Thraeth Lafan.
[2] Wedi'u dynodi dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Adar yr UE.
[3] Wedi'u dynodi dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

11. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel cynllun ar gyfer y cynigion Cymru gyfan hyn. Byddai'r asesiad yn darganfod terfynau cyfyngiadau amgylcheddol posibl, nodweddion cyffredin, mesurau lliniaru rheoli ac ati. Bydd y broses hon yn rhoi cyfeiriad ac o bosibl yn arbed amser wrth gynnal Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect ar gyfer pysgodfeydd unigol.

12. Er mwyn rheoli safleoedd yn effeithiol, mae'n rhaid cydnabod bod gofynion gwarchod natur safleoedd unigol yn aml yn wahanol ac efallai'n gofyn am ymagwedd reoleiddio wahanol. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cyfres o fesurau rheoliadol y gellid eu mabwysiadu i reoli'r amgylchedd morol rhynglanwol yng Nghymru waeth a oes pysgodfa gocos benodol o fewn ardal warchodedig ai peidio.

13. Yn hanesyddol mae pysgota cocos yng Nghymru wedi ei reoli gyda thymor caeedig i ganiatáu poblogaethau cocos i luosi, gan ganiatáu adfer stociau, ac atal aflonyddwch i adar gwyllt a warchodir ac ati. Mae'r cynigion yn nodi y bydd y rheoli'n caniatáu i bysgodfeydd Cymru fod ar agor gydol y flwyddyn. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y newid hwn i'r rheoli ymhellach o fewn yr asesiadau amgylcheddol priodol.

14. Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu set safonol o fesurau bioddiogelwch gofynnol. Dylai'r rhain fod yn amodol i drwyddedau a roddir i weithredwyr sy'n rhedeg pysgodfeydd cocos ledled Cymru.

15. I gynorthwyo gyda phenderfyniadau amgylcheddol a rheoli, gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu Llywodraeth Cymru â mapiau sensitifrwydd cynefinoedd rhynglanwol penodol sy'n ymwneud â chasglu cocos ar dair lefel ddiffiniedig o ddwysedd pysgota a mapiau sensitifrwydd mynediad ar draws y blaendraeth (ar gyfer mynediad i gerbydau ac ar droed) bob un ar dair lefel o ddwyster.

## Rheoli pysgodfeydd cocos yng Nghymru

16. Bwriad y cynigion hyn yw gwella a sicrhau cysondeb yn y ffordd y rheolir pysgodfeydd cocos yng Nghymru. Fodd bynnag, mae perygl y bydd y gofynion trwyddedu ychwanegol yn costio mwy o arian i bysgotwyr, yn ychwanegu haen arall o fiwrocratiaeth ac yn creu gorgyffwrdd rheoli rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

17. Dylid mynd i'r afael ag unrhyw orgyffwrdd rheoli rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru drwy fabwysiadu ymagwedd integredig dryloyw o safbwynt gweinyddu a rheoleiddio. Ar hyn o bryd nid oes digon o fanylion wedi'u cynnwys o fewn yr ymgynghoriad hwn ynglŷn â sut bydd y system newydd yn gweithio. O dan y cynigion hyn gallai fod angen tri chaniatâd; y Drwydded Cymru Gyfan, y Drwydded Prif Bysgodfa, a thrwydded Gorchymyn Rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru; i bysgota naill ai ym mhysgodfa Gorchymyn Rheoleiddio Dyfrdwy neu Gilfach Tywyn. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru am weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynigion hyn ymhellach er mwyn lleihau'r baich rheoleiddio ar bysgotwyr.

18. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi egwyddor dull aml-asiantaeth ar gyfer rheoli pysgodfeydd cocos yng Nghymru. Llywodraeth Cymru ddylai fod y corff arweiniol sy'n gyfrifol am reoli'r bysgodfa gyda phartneriaid ac asiantaethau yn gweithredu o fewn eu pwerau a'u cylchoedd gwaith yn unol â hynny.

19. Mae angen eglurder yng nghyswllt y meini prawf a ddefnyddir i ddiffinio 'Prif Bysgodfa'.

20. Nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau i reoleiddio'r pysgodfeydd cocos yn aber y Foryd, Caernarfon a rhannau o aber Afon Dyfi gan fod y gwelyau cocos wedi'u lleoli y tu allan i awdurdodaeth yr hen Bwyllgor Pysgodfeydd Môr. Mae'n hanfodol bod y gwelyau hyn yn cael eu dwyn o dan reolaeth Llywodraeth Cymru gan fod potensial iddynt ymelwa'n fasnachol bob un.

21. Dylid ymgynghori â'r Sefydliad Rheoli Morol, Awdurdod Pysgodfeydd Mewndirol a Chadwraeth Gogledd Orllewin Lloegr a chynrychiolwyr pysgotwyr ar gynigion rheoli cocos a allai effeithio ar bysgotwyr o Loegr sy'n gweithredu ar draws y ffin o dan Orchymyn Rheoleiddio Cocos Dyfrdwy.

**Ardaloedd wedi'u dynodi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)**

22. Mae'r cynigion yn bwriadu rheoli pysgota cocos drwy agor pob ardal gyda chocos yng Nghymru i bysgota (gweler Atodiad 1), gan gynnwys ardaloedd nad yw'r ASB wedi'u hardystio ar gyfer casglu masnachol a'u bwyta gan bobl. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai cyfrifoldeb y pysgotwyr fydd pysgota yn yr ardaloedd pysgod sydd wedi'u dosbarthu gan yr ASB yn unig.

23. Mae potensial i'r cynnig hwn achosi rhywfaint o ddryswch; efallai y bydd ardaloedd yn agored i bobl bysgota ynddynt ond heb eu dosbarthu ar gyfer eu bwyta gan bobl. Yr Awdurdod Lleol perthnasol sydd â'r cyfrifoldeb gorfodi ar gyfer sicrhau nad oes pysgota yn yr ardaloedd nad ydynt wedi'u dosbarthu gan yr ASB.

24. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith gorfodi i sicrhau dealltwriaeth ddigonol, cyfathrebu a chyd-drefnu rhwng eu Swyddogion Gorfodi Morol a staff gorfodi Awdurdodau Lleol yr effeithir arnynt.

25. Ffordd arall o reoli pysgota cocos byddai parhau â'r dull presennol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan y Gorchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) (Cymru) 2011. Mae'r system hon o reolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ardaloedd unigol gael eu hychwanegu at y drwydded ar ôl iddynt fodloni unrhyw asesiadau amgylcheddol perthnasol. Felly, os yw unigolyn yn pysgota mewn ardal nad yw ar y rhestr ardal agored mae'n cyflawni trosedd o dan ddeddfwriaeth pysgodfeydd Llywodraeth Cymru.

**Gorfodi**

26. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ac unrhyw un o'i bartneriaid strategol megis Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol fod ag adnoddau digonol i fedru gorfodi'r rheoliadau arfaethedig. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth rheoleiddio, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymell presenoldeb staff gorfodi yn yr holl bysgodfeydd cocos yng Nghymru pan maent ar agor. Ni ddylid amcangyfrif yn rhy isel maint posib y pysgota cocos anghyfreithlon.

27. Mae prinder manylion ynglŷn â sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rheoleiddio'r pysgodfeydd cocos o safbwynt gorfodi:

- A fydd Swyddogion Gorfodi Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u croes warantu neu a fydd angen newidiadau i Gynlluniau Rheoli Gorchymyn Rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru i ganiatáu i drwyddedau Llywodraeth Cymru ddod yn amodau trwydded?

- A fydd angen i Swyddogion Gorfodi Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu cymorth gorfodi mewn ardaloedd pysgodfeydd cocos eraill y tu allan i ardaloedd Gorchymyn Rheoleiddio presennol?

28. Efallai y bydd angen rhoi ystyriaeth i effaith pysgotwyr yn colli eu Trwyddedau Cymru Gyfan a chyfreithlondeb diddymu eu hawl i bysgota o fewn y naill Orchymyn Rheoleiddio neu'r llall o'r rhai sydd dan ofal Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Tystysgrif Hyfforddiant Diogelwch Casglwyr Blaendraeth**

29. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud y Dystysgrif Hyfforddiant Diogelwch Casglwyr Blaendraeth yn ofyniad o dan eu cyfundrefnau trwyddedau newydd. Nid yw, fodd bynnag, yn ofyniad ar hyn o bryd o fewn Gorchmynion Rheoleiddio Cocos Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Dyfrdwy a Chilfach Tywyn.

**Ffi**

30. Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn mynd i'r afael â'r angen am well gwybodaeth i asesu effeithiau pysgota cocos, gweithgareddau ategol, rhywogaethau ymledol, achosion o farwolaethau annodweddiadol, ac ati ar safleoedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i fabwysiadu proses ar gyfer monitro a chynnal ymchwil yn y dyfodol ar bob safle pysgodfeydd ledled Cymru i lywio asesiadau amgylcheddol. Gallai hyn gael ei ariannu drwy ffioedd trwyddedau Llywodraeth Cymru.

**Isafswm Maint Glanio (IMG)**

31. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi Isafswm Maint Glanio Cymru gyfan o 20mm am resymau amgylcheddol ac o ran cysondeb.

32. Dylai Cynlluniau Rheoli lleol gadw'r gallu i ddiwygio'r IMG cenedlaethol yn ôl amodau lleol ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

**Ffurflenni Casgliadau**

33. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi na fydd mesurau i ddelio ag olrhain yn rhan o'r broses ymgynghori hon. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried y cyfle o fewn y cynigion hyn i integreiddio unrhyw system sydd newydd ei datblygu o ran ffurflenni casgliadau gyda Dogfennau Cofrestru'r Awdurdod Lleol (dogfennau Symud Pysgod Cregyn gynt) o dan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Cynhyrchion Pysgodfeydd a Physgod Cregyn Byw) (Hylendid) 1998.

**Cyfanswm Casgliadau a Ganiateir (CCaG)**

34. O dan y drefn reoli arfaethedig, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno system CCaG ar gyfer pob pysgodfa gocos yng Nghymru sydd dan ei rheolaeth. Gallai hyn gyfrannu tuag at fframwaith rheoli cyson ar gyfer asesiadau amgylcheddol.

**Cwestiynau Ymgynghori**

**35. Ydych chi'n cytuno â manylion y Cynllun Trwyddedau Cymru Gyfan a'r cynllun trwyddedau penodol ar wahân ar gyfer y prif bysgodfeydd cocos dethol fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori?**

36. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno â'r cyfeiriad strategol a gymerwyd yng nghynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli'r bysgodfa gocos yng Nghymru. Rydym yn cefnogi'r angen am ymagwedd integredig tuag at reolaeth amgylcheddol a rheoleiddio.

37. Mae potensial i'r Cynlluniau Trwyddedau Cymru Gyfan a Thrwyddedau Prif Bysgodfeydd greu dryswch a gwaith ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n bwysig bod y manylion yn y cynigion hyn yn cael eu datblygu ymhellach er mwyn integreiddio unrhyw swyddogaethau gweinyddol neu reoleiddiol ychwanegol o fewn y sefydliadau dan sylw. Rhaid i unrhyw newidiadau fod yn dryloyw, yn gymesur gan arwain at safoni unrhyw gyfundrefn reoli cocos yng Nghymru yn y dyfodol.

38. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru am weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i ddatblygu unrhyw fanylion pellach sydd eu hangen o dan y cynigion ar gyfer Cynlluniau Trwyddedau Cymru Gyfan a Thrwyddedau Prif Bysgodfeydd.

**39. Ydych chi'n cytuno y dylid pennu uchafswm trwyddedau ar gyfer pob unigolyn, er mwyn pysgota yn unrhyw un o brif bysgodfeydd Cymru? (gan gynnwys pysgodfeydd sy'n destun Gorchymyn Rheoleiddio)**

40. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i gyfyngu ar nifer y prif drwyddedau a roddir ar gyfer pysgota yn y prif bysgodfeydd. Mae yna eisoes nifer cyfyngedig o drwyddedau yn y pysgodfeydd Gorchymyn Rheoleiddio a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.  Felly mae hyn yn fesur rheoli tebyg i'r rhai rydym yn gweithredu yng Ngorchymyn Rheoleiddio pysgodfeydd Dyfrdwy a Chilfach Tywyn. Mae'r dull hwn yn caniatáu sicrwydd o gyfle ar gyfer y rheini y dyfernir trwyddedau iddynt, yn symleiddio gorfodi ac yn galluogi rheolwyr i asesu effeithiau amgylcheddol y gweithgareddau hyn yn fwy cywir.

**41. Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddyrannu trwyddedau i ymgeiswyr y prif bysgodfeydd?**

42. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru brofiad penodol o ddyrannu trwyddedau o fewn pysgodfa gocos gyfyngedig Gorchymyn Rheoleiddio Dyfrdwy a byddem yn hapus i rannu hyn gyda Llywodraeth Cymru.

**43. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno isafswm maint glanio safonol o 20mm ledled Cymru? (yn amodol ar gyngor gwyddonol mewn prif bysgodfeydd â Chynllun Rheoli Lleol).**

44. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r Isafswm Maint Glanio o 20mm Cymru gyfan (IMG) ar gyfer cocos. Dylai Cynlluniau Rheoli lleol gadw'r gallu i ddiwygio'r IMG cenedlaethol yn ôl amodau lleol ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

**45. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer system olrhain, er mwyn olrhain cocos o'u tarddle i'r prosesydd / i'w hallforio?**

46. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gefnogol i'r cynnig i gyflwyno ffurflenni casgliadau ar gyfer yr holl gocos a gesglir yng Nghymru. Er mwyn osgoi dyblygu gan bysgotwyr, dylid rhoi ystyriaeth i sut mae system ffurflen casgliadau newydd Llywodraeth Cymru yn integreiddio gyda ffurflenni casgliadau cyfredol y pysgodfeydd a reoleiddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

47. Er mwyn sicrhau olrheiniadwyedd, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i edrych eto ar y cyfle o fewn y cynigion hyn i integreiddio unrhyw system adrodd am gasgliadau a ddatblygir gyda system Dogfennau Cofrestru'r Awdurdod Lleol ar gyfer symud pysgod cregyn.

I gloi, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu natur strategol y cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori ond rydym yn cydnabod yr angen i ystyried ymhellach sut bydd y cynigion yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Byddai staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn hapus i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i rannu unrhyw wybodaeth a datblygu'r cynigion hyn ymhellach oherwydd byddant yn effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar y gwaith o reoli cocos mewn ardaloedd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol amdanynt.

Gweler yr atodiadau sydd ynghlwm am adborth pellach ar y synergeddau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prif argymhellion yng nghynigion ymgynghori rheoli cocos Llywodraeth Cymru.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â Colin Charman, Ymgynghorydd Pysgodfeydd Morol colin.charman@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Yr eiddoch yn gywir

Ceri Davies
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio
Executive Director for Knowledge, Strategy & Planning
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
Ffôn/Tel: (029) 20466045
Ffôn symudol / Mobile: 07818008865
E-bost/E-mail: ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk

**Atodiad 1**

**Gwelyau cocos hysbys yng Nghymru (nid yw'n rhestr gyflawn)**

| **Gwely cocos** | **Dosbarthwyd gan yr ASB** | **Ardal Forol Warchodedig** |
|---|---|---|
| Dyfrdwy | B | Y |
| Traeth Lafan | B | Y |
| Bae Beddmanarch | - | Y |
| Afon Cymyran | - | Y |
| Traeth Coch | B | Y |
| Malltraeth | B | Y |
| Traeth Melynog | - | Y |
| Foryd | - | Y |
| Dwyryd/Glaslyn | - | |
| Mawddach | - | Y |
| Dyfi | - | Y |
| Bae Angle | - | Y |
| Y Tair Afon | B | Y |
| Cilfach Tywyn | A/B | Y |

**Atodiad 2**

**Ymholiadau ychwanegol penodol ar gynigion Llywodraeth Cymru**

**Trwydded Cymru Gyfan**

Bydd angen i Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried ymhellach fanylion a goblygiadau'r Drwydded Cymru Gyfan arfaethedig yn y meysydd a ganlyn:

- Integreiddio gweinyddu rhwng y ddau sefydliad
- Materion cyfrinachedd data
- Adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwaith ychwanegol
- Y potensial o fwy o waith gorfodi ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru
- Integreiddio 3 trwydded - dryswch posibl i ddeiliaid trwyddedau, bellach bydd angen tair trwydded i bysgota yn y pysgodfeydd a reoleiddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru lle cynt un yn unig oedd ei hangen
- Cyd-drefnu a chynllunio gorfodi
- Eglurder o ran ble y disgwylir i swyddogion gorfodi Cyfoeth Naturiol Cymru orfodi'r Drwydded Cymru Gyfan
- Newidiadau posibl i Orchmynion Rheoleiddio a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnwys Trwydded Cymru Gyfan fel amod ar drwydded.
- Hyd y Drwydded Cymru Gyfan.

**Trwydded Prif Bysgodfa**

Bydd angen i Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried ymhellach fanylion a goblygiadau'r Drwydded Prif Bysgodfa arfaethedig yn y meysydd a ganlyn:

- Integreiddio gweinyddu rhwng y ddau sefydliad
- Materion cyfrinachedd data
- Adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwaith ychwanegol
- Y potensial o fwy o waith gorfodi ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru
- Sut bydd Swyddogion Gorfodi yn gwybod pa ddau bysgotwr unigol mewn Prif Bysgodfa all bysgota?
- Integreiddio 3 trwydded - dryswch posibl i ddeiliaid trwyddedau, bellach bydd angen tair trwydded i bysgota yn y pysgodfeydd a reoleiddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru lle cynt un yn unig oedd ei hangen
- y meini prawf ar gyfer dewis Prif Bysgodfa fel rhan o'r Cynllun Trwyddedau Prif Bysgodfeydd
- Newidiadau posibl i Orchmynion Rheoleiddio a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnwys Trwydded Prif Bysgodfa fel amod ar drwydded.
- Bydd yn rhaid i bysgotwyr ym mhysgodfeydd Gorchymyn Rheoleiddio Dyfrdwy neu Gilfach Tywyn wneud cais am Drwydded Cymru Gyfan
- Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y gallai Trwyddedau Prif Bysgodfeydd gael eu dirymu o dan Gynlluniau Rheoli Prif Bysgodfeydd. Os yw hyn yn wir, a fydd pysgotwyr wedyn yn colli'r Drwydded Cymru Gyfan hefyd?
- Hyd y Drwydded Prif Bysgodfa.

- A fydd y meini prawf dethol ar gyfer y drwydded Gorchymyn Rheoleiddio a Phrif Bysgodfa o bosibl yn wahanol?

**Tystysgrif Hyfforddiant Diogelwch Casglwyr Blaendraeth**

- Newidiadau posibl i amodau trwydded y Gorchymyn Rheoleiddio a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnwys y Dystysgrif Hyfforddiant Diogelwch Casglwyr Blaendraeth fel amod ar drwydded.

**Ffurflenni Casgliadau**

- Os nad yw casglwyr yn cydymffurfio ag amodau system orfodol Llywodraeth Cymru i adrodd am gasgliadau, a fyddant hefyd mewn perygl o golli eu Trwyddedau Cymru Gyfan, eu Trwyddedau Prif Bysgodfeydd a'u trwyddedau Gorchymyn Rheoleiddio hefyd?
- Pa mor aml a phryd bydd angen cyflwyno ffurflenni casgliadau i Lywodraeth Cymru?
- Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhannu'r wybodaeth gyfrinachol yma?
- Posibilrwydd o ddyblygu ymdrech gyda ffurflenni casgliadau ar gyfer pysgodfeydd a reoleiddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Cyfanswm Casgliadau a Ganiateir (CCaG)**

- A fydd yna unrhyw eithriadau o'r gofyniad i bysgotwyr ddefnyddio o leiaf 75% o'u CCaG unigol e.e. salwch?
- Nid yw defnyddio 75% o CCaG pysgotwyr ar hyn o bryd yn un o ofynion Gorchymyn Rheoleiddio Cilfach Tywyn neu Ddyfrdwy. A fydd angen i hwn fod yn amod trwydded?

Nid yw'r rhestr hon o ymholiadau ychwanegol yn un gaeth a gellid ei defnyddio fel sail i drafodaethau pellach rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.